**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1135
Ein cyf/Our ref KW/00747/21
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar ran y Pwyllgor Deisebau, yn gofyn am farn ar y materion a godwyd yn neiseb P-05-1135 ynghylch cyllid i ganolfannau addysg awyr agored preswyl sydd bellach yn methu â gweithredu am 12 mis, cyn i chi ei hystyried yn ffurfiol.

Rwy'n derbyn bod y cyfnod hwn yn un anodd ac ansicr tu hwnt i ganolfannau preswyl a busnesau yn y sector twristiaeth a hamdden. Rwy'n cydnabod gwerth addysg a gweithgareddau awyr agored i addysg plant a phobl ifanc, a gwerth ymweliadau a thripiau, nid yn unig at ddiben addysgol ond hefyd er lles plant a phobl ifanc. Rwyf wedi clywed yn uniongyrchol gan ddarparwyr, ysgolion, dysgwyr a rhieni am yr effaith gadarnhaol a gaiff profiadau o'r fath ar ddysgwyr.

Mae'r canllawiau mewn perthynas â thripiau a drefnir gan leoliadau addysgol yng Nghymru yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'n safbwynt presennol o ran tripiau o'r fath yn parhau i gyd-fynd â chyngor Llywodraeth y DU, sy'n cynghori yn erbyn tripiau addysgol i blant o dan 18 oed a drefnir gan leoliadau addysgol. Rydych yn ymwybodol, rwy'n siŵr, o'r canllawiau diweddaraf mewn perthynas ag ymweliadau domestig nad ydynt yn rhai dros nos a chanolfannau preswyl, sydd ar gael yma, ac y dylid ystyried y canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion, sydd ar gael yma.

Rwy'n eich sicrhau ein bod yn benderfynol o roi'r cymorth a'r sicrwydd sydd ei angen ar y gymuned fusnes. Mae swyddogion polisi mewn cysylltiad parhaus â chynrychiolwyr i drafod ein canllawiau a'r cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer y sector.

Yn ychwanegol at yr ystod o grantiau y mae llawer o'r canolfannau wedi bod yn gymwys amdanynt o'r blaen o dan y Gronfa Cadernid Economaidd a'r grantiau ardrethi busnes ar gyfer Cymru yn unig, bu cynnydd arall o £200m yn ein pecyn cymorth ddydd Gwener 29 Ionawr i helpu busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau lefel rhybudd pedwar, sy'n mynd a'i gyfanswm i £650m. Mae grantiau Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gyfyngiadau a’r grantiau dewisol ar gyfer y sectorau manwerthu nad ydynt yn hanfodol, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth (a’r busnesau sydd yn eu cadwyn gyflenwi) wedi’u estyn i ddarparu un taliad atodol ar gyfer y cyfnod rhwng 25 Ionawr a diwedd Mawrth 2021 i fusnesau yr effeithir arnynt gan y cyfyngiadau cenedlaethol.

Bydd busnesau yn gallu cofrestru a gwneud cais am y cyllid drwy wefan Busnes Cymru a gwefan yr Awdurdod Lleol.
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Dylai pob busnes hefyd allu cael gafael ar gymorth penodol sydd ar gael gan Lywodraeth y DU – gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi:
https://www.gov.uk/coronavirus/business-support

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education